

**Grŵp Cynggori ar Faterion Moesol a Moesegol COVID-19: Cymru  
Dydd Iau 30 Gorffennaf 2020 16:00-17:30**

Trwy Skype.

<b>Cam gweithredu</b>	<b>Yn gyfrifol</b>
Y Cadeirydd i gysylltu ag Alison Parken i ddiolch iddi am y cymorth a roddwyd i'r grŵp.	Heather Payne
Unrhyw sylwadau pellach am leoliadau gofal i gael eu hanfon at Marc Davies	Pawb
Unrhyw sylwadau pellach am yr adnodd asesu risg i gael eu hanfon at Dr Harley	Pawb
Aelodau'r grŵp i anfon adborth a syniadau ynglŷn â'r Grŵp Cynggori at Holly/Kevin erbyn 6 Awst.	Pawb

Yn bresennol

Heather Payne (Cadeirydd), Aled Roberts, Aled Edwards, Helena Herklots, Emma Bennett, Martin Jones, Lisa Gerson, Idris Baker, Rocio Cifuentes, Marc Davies, Viv Harwood, Martyn Jones, Holly Williams.

Siaradwyr gwadd

Dr Natasha Harley

Nodyn o'r cyfarfod

<b>Rhif</b>	<b>Pwnc</b>
1.	<p><u>Croeso, Ymddiheuriadau a Chyflwyniadau</u></p> <p>Gwnaeth y Cadeirydd y cyflwyniadau, gan nodi'r ymddiheuriadau. Cafwyd ymddiheuriadau gan Chanal Patel, Baroness Finlay, Shavanah Taj, Sean O'Neill.</p> <p>Dywedodd Heather y byddai'r grŵp yn cyfarfod drwy Teams yn y dyfodol.</p>
2.	<p><u>Cofnodion blaenorol</u></p> <p>Cytunwyd ar y cofnodion, er y gallai'r aelodau sydd am wneud unrhyw newidiadau pellach eu hanfon at Holly.</p> <p><u>Camau gweithredu</u></p> <p>Pob un wedi ei gytuno a'i gwblhau</p> <p><u>Papur ar lacio'r cyfyngiadau a phapur ar flaenoriaethu moesegol</u></p> <p>Dywedodd y Cadeirydd fod y papurau uchod wedi cael eu hanfon at aelodau'r grŵp cyn y cyfarfod, i'w hychwanegu at gofnodion yr aelodau. Cyhoeddir yr adroddiadau ar y wefan, a bellach maent yn rhan o broses gynllunio'r cydweithwyr hynny sy'n cynllunio ar gyfer dychwelyd i ryw fath o normal.</p>

3.	<p><u>Y Grŵp Cyngori ar Faterion Moesol a Moesegol COVID-19 ac asesiadau risg mewn lleoliadau gofal yn ystod y cyfnod adfer.</u></p> <p>Anerchodd Dr Marc Davies (aelod o'r grŵp a Chofrestrydd Iechyd Cyhoeddus) y cyfarfod i geisio cyngor a barn gan yr aelodau ynghylch mater sy'n dod i'r amlwg yn lleol ym maes iechyd y cyhoedd, sef yr angen i sicrhau cydbwysedd rhwng risgiau a hawliau'r unigolyn a'r risgiau i'r boblogaeth (risgiau i iechyd y cyhoedd), yn benodol yn y cyd-destun o agor cartrefi gofal i dderbyn ymwelwyr a chynnal gweithgareddau. Dywedodd Marc ei fod yn teimlo bod y ddadl hyd yn hyn wedi canolbwyntio ar ddeddfwriaeth, a bod fawr ddim o ymchwilio i'r agweddau moesol a moesegol. Gofynnodd Marc i aelodau'r grŵp roi eu sylwadau a'u barn, gan ofyn hefyd a oes unrhyw adnoddau sydd ar gael eisoes i helpu i symud y gwaith hwn yn ei flaen.</p> <p>Gofynnodd Heather i aelodau'r grŵp roi eu syniadau, gan ddweud y byddent yn cael eu hanfon at holl aelodau'r grŵp er mwyn i'r rheini nad oeddent yn bresennol yn y cyfarfod gyfrannu hefyd.</p> <p>Dyma'r adborth a gafwyd gan y grŵp:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Y profiad blaenorol oedd bod y risgiau'n cael eu gwerthuso mewn perthynas â chyflawni'r mater dan sylw, ond nid mewn perthynas â pheidio â'i gyflawni – mae angen rhoi ystyriaeth i'r risgiau moesol o beidio â chyflawni mater penodol.</li> <li>- Mae'r gwaith o ddarparu canllawiau ar ddiogelwch ymweliadau dan do mewn cartrefi gofal yn mynd rhagddo ar frys – mae'r gweithgor perthnasol yn Llywodraeth Cymru ac AGC yn ystyried y gwaith hwn – darparwyd canllawiau ar gyfer caniatáu ymweliadau awyr agored i breswylwyr cartrefi gofal <a href="https://llyw.cymru/ymweliadau-chartrefi-gofal-canllawiau-i-ddarparwyr-html">https://llyw.cymru/ymweliadau-chartrefi-gofal-canllawiau-i-ddarparwyr-html</a></li> <li>- Mae angen ystyried hawliau dynol a'r risgiau o dorri hawliau dynol pobl hŷn.</li> <li>- Mae'r sector ffydd yn teimlo'n anfodlon gan nad ydynt wedi cael sicrwydd hyd yn hyn o ran y canllawiau a ddarperir.</li> <li>- Mae angen rhoi ystyriaeth i'r Gymraeg. Mae pryderon ynglŷn â pha drefniadau sydd ar waith i sicrhau bod anghenion cyfathrebu yn cael eu bodloni.</li> <li>- Mae angen ystyried y canlyniadau iechyd os nad yw pobl yn gallu cael presenoldeb arferol aelodau eu teulu, a sut mae hynny'n effeithio ar eu hanghenion iechyd.</li> <li>- Mae dogfennaeth helaeth ar gael ynghylch sut i gynnal asesiadau risg mewn perthynas â hawliau dynol.</li> </ul> <p>Diolchodd Marc i aelodau'r grŵp am eu hadborth, gan ddweud ei fod wedi nodi'r pwyntiau a godwyd, sy'n dangos bod yr holl aelodau â barn ddigon tebyg. Dywedodd y byddai'n ystyried y sylwadau a gafwyd, gan baratoi papur ar gyfer y cyfarfod nesaf er mwyn trafod beth fyddai'r camau nesaf.</p>
4.	Adnodd asesu risg ar gyfer y gweithlu – cyflwyniad a thrafodaeth - Dr Harley

	<p>Roedd Dr Harley wedi cael gwahoddiad i'r cyfarfod gan y Cadeirydd er mwyn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am yr adnodd asesu risg ar gyfer y gweithlu yng Nghymru. Tarddiad hwn oedd grŵp cynghori'r Prif Weinidog ar y canlyniadau gwahanol a gwaeth sy'n digwydd i gymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn sgil y pandemig COVID-19. Cafodd yr adnodd asesu ei roi ar waith i helpu pobl i werthuso'r risg o COVID-19 i'w hiechyd fel unigolion, er mwyn sicrhau bod yr addasiadau priodol yn cael eu gwneud ar gyfer y gweithlu.</p> <p>Cafodd Dr Harley y dasg o werthuso'r adnodd i sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio a'i fod yn gwneud yr hyn y dylai ei wneud. Dywedodd Dr Harley ei bod wedi cyfrannu at y gwaith o wneud argymhellion i wella'r adnodd yn sgil unrhyw gyngor newydd. Nodwyd nifer o ffyrdd o wella sut mae'n cael ei weithredu. Casglwyd adborth gan bobl sydd wedi defnyddio'r adnodd, gan goladu'r casgliadau a'u trefnu yn ôl themâu. Ar y cyfan, mae'r adborth a gafwyd hyd yn hyn yn gadarnhaol, ac mae pobl yn falch o gael adnodd y gallant droi ato wrth wneud penderfyniadau ynghylch y risg iddynt fel unigolion. Cafwyd awgrym y gellid enwebu arweinwyr neu hyrwyddwyr amrywiaeth fel pobl sy'n darparu pwynt i gyfeirio ato ar gyfer cael rhagor o gyngor. Y newid mwyaf sy'n cael ei ystyried gan y grŵp yw sut i gynnwys y rheini sy'n gwarchod eu hunain ar hyn o bryd.</p> <p>Roedd yr adborth a roddwyd gan y grŵp i Dr Harley yn gadarnhaol. Rhoddwyd sylwadau bod pobl yn rhagdybio mai adnodd ar gyfer pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn unig yw hwn, ac am y ffaith nad yw'n glir faint o gymorth ymarferol a ddarperir ar ôl i bobl ddefnyddio'r adnodd a chael eu nodi fel pobl y mae'r risg iddynt yn uchel.</p> <p>Gofynnodd y Cadeirydd i aelodau'r grŵp roi eu sylwadau a'u hadborth o ran pa gamau y dylid eu cymryd nesaf. Diolchodd y Cadeirydd i Dr Harley am yr adroddiad a'r cyflwyniad rhagorol.</p>
5.	<p><u>Adolygiad o gylch gorchwyl Grŵp Cynghori ar Faterion Moesol a Moesegol COVID-19: Cymru, a sylwadau am ei gyfeiriad yn y dyfodol</u></p> <p>Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau ei bod wedi ei chytuno, pan gafodd y grŵp ei sefydlu gyntaf, y byddai angen cynnal gwerthusiad o ganlyniadau a gwerth y grŵp wrth edrych yn ôl ar yr hyn yr oedd wedi ei gyflawni, a beth a ddylai ddigwydd yn y dyfodol. Gofynnodd y Cadeirydd i aelodau'r grŵp anfon eu sylwadau o ran sut yr oedd pethau wedi mynd hyd yma – sef llwyddiannau, cryfderau a gwendidau'r grŵp ac awgrymiadau ar gyfer ei ddyfodol.</p> <p>Gofynnodd y Cadeirydd iddynt anfon unrhyw sylwadau o fewn yr wythnos, iddi hi ac i Holly, er mwyn trafod y sylwadau hynny yn y cyfarfod nesaf.</p>
6.	<p><u>Unrhyw fater arall</u> Dim materion eraill.</p> <p><u>Cyfarfod nesaf</u> Ymhen pythefnos yn unol â'r trefniadau (13 Awst).</p>

